



Home Office

**YMATEBION MWY
EFFEITHIOL I YMDDYGIAD
GWRTHGYMDEITHASOL
CWESTIYNAU I'R CYHOEDD**

BETH YW YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL?

Mae 'ymddygiad gwrthgymdeithasol' yn disgrifio ystod o niwsans, anrhefn a throseddu cyffredinol. Gall hyn fod yn bethau fel graffiti a chymdogion swnllyd neu aflonyddu a gwerthu cyffuriau ar y stryd. Weithiau mae'n cael i ddiystyru fel mater pitw, ond mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael effaith enfawr ar ansawdd bywyd dioddefwyr. Dyma brif gonsyrn y cyhoedd pan ddaw i faterion troseddu lleol. Adroddwyd dros 3.5 miliwn o ddiwyddiadau i heddluoedd yng Nghymru a Lloegr y llynedd. Fe wyddom yr adroddwyd llawer mwy i asiantaethau lleol eraill megis cynghorau a chymdeithasau neu beidio eu hadrodd o gwbl.

PAM MAE'R YMGYNGHORIAD YN CAEL EI GYNNAL?

Mae lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn flaenoriaeth i'r llywodraeth. Rydym yn disgwyl iddo fod yn flaenoriaeth i'r heddlu ac asiantaethau eraill hefyd, yn arbennig ble mae'n droseddol neu wedi ei dargedu at ddioddefwyr bregus. Heb ei atal, gellir cysylltu ymddygiad gwrthgymdeithasol i droseddau lefel isel ac ofn troseddau mewn cymdogaeth.

Mae'r heddlu a'u partneriaid lleol, megis cynghorau lleol, angen ystod o fesurau i ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Ble fo ymddygiad yn droseddol, dylid delio ag o felly. Ond gall pethau eraill, megis llythyr rhybudd neu unigolyn yn cytuno i wneud iawn am y difrod a achoswyd (er enghraifft, trwy ymddiheuro neu dalu i drwsio ffenestr) fynd at y drwg yn y caws cyn i bethau fynd yn rhy bell. A gall gorchmynion trwy'r llysoedd atal ymgyrchoedd hirhoedlog o ddychryn neu aflonyddu, er enghraifft, trwy atal rhywun rhag mynd i ardal benodol.

Mae symleiddio a gwella'r ystod o arfau yn bwysig, ond dim ond rhan o'r darlun yw hyn. Mae'n cynigion ar ymddygiad gwrthgymdeithasol yn rhan o becyn ehangach o ddiwygiadau sy'n cynnwys:

- gwneud heddluoedd yn fwy atebol i bobl leol trwy Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau a gwybodaeth troseddau ar y stryd. Gallwch ddysgu mwy am fapio troseddau yn www.police.uk;
- nodi a lledaenu syniadau da ar ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, megis profi ymagwedd newydd i ddelio ag adroddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr. Ceir rhagor o wybodaeth am y profion hyn yn <http://www.homeoffice.gov.uk/media-centre/news/asb-victims?version=1>;
- a grymuso pobl i gymryd mwy o ran ar faterion diogelwch cymunedol, er enghraifft, trwy waith Helen Newlove fel hyrwyddwr y llywodraeth dros gymunedau gweithredol, mwy diogel. Ceir rhagor o wybodaeth am ei gwaith yn <http://www.helennewlove.co.uk/>.

BETH YW'R BROBLEM GYDA'R ARFAU PRESENNOL I DDELIO AG YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL?

Ar hyn o bryd mae gan ymarferwyr ystod o opsiynau i ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, o gyhoeddi llythyrau rhybuddio i wneud cais am orchmynion llys megis y Gorchmyn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (ASBO). Canfu arolwg o'r system hon:

- bod gormod o offer i'w cael gan fod yna offeryn unigol ar gyfer pob problem unigol. Er enghraifft, ceir gorchmynion llys i gau manau cyflenwi crac, un i gau puteindai, ac un i gau llefydd eraill sy'n gysylltiedig ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'r rhain i gyd yn gwneud yr un peth yn gyffredinol. Mae hyn yn drysu rhai ymarferwyr, ac yn golygu eu bod yn defnyddio'r rhai maent fwyaf cyfarwydd â nhw yn unig;
- mai anaml y defnyddiwyd offer a gafodd eu cynllunio i helpu'r sawl sy'n cyflawni troseddau i ddelio ag achosion eu hymddygiad gwrthgymdeithasol;

- bod rhai o'r offer (yn arbennig yr ASBO) yn fiwrocraidd, araf a drud, sy'n gwneud i bobl osgoi eu defnyddio.
- mae'r nifer gynyddol o bobl sy'n torri eu ASBO yn awgrymu nad yw'r cosbau maent yn wynebu yn rym ataliol rhag parhau gyda'u hymddygiad gwrthgymdeithasol neu droseddol.

BETH YW'N CYNIGION AR GYFER NEWID?

Rydym eisiau symud i ffwrdd o gael offeryn unigol ar gyfer pob problem wahanol i sicrhau bod gan yr heddlu a phartneriaid opsiynau cyflymach, mwy hyblyg. Bydd y rhain, a sancsiynau mwy effeithiol, yn helpu gweithwyr proffesiynol a, ble fo angen, bydd y llysoedd yn stopio ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gynt. Bydd hyn yn helpu diogelu dioddefwyr a chymunedau yn well.

BETH YW'R CYNIGION?

Yn benodol, rydym yn cynnig:

- diddymu'r ASBO a gorchmynion llys newydd ar gyfer unigolion gwrthgymdeithasol, a'u hamnewid gyda dau orchymyn newydd sy'n dod â chyfyngiadau ar ymddygiad yn y dyfodol a chefnogaeth i ddelio â phroblemau sylfaenol ynghyd – Gorchymyn Ymddygiad Troseddol y gellir ei atodi i euogfarn droseddol, a Gwaharddeb Atal Trosedd all atal ymddygiad gwrthgymdeithasol yn fuan cyn iddo ddwysau;
- sicrhau bod yna resymau grymus i atal rhywun rhag ymddwyn yn wrthgymdeithasol – er enghraifft, trwy wneud torri'r gorchmynion newydd yn sail i droi allan o dai cymdeithasol;
- dod â nifer o'r offer presennol i ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n digwydd mewn lleoliad penodol ynghyd, er enghraifft, parc neu gartref, i Orchymyn Ymddygiad Troseddol. Byddai hyn yn delio â sbwriel cyson neu gymdogion swllyd, a hefyd gydag yfed ar y stryd a chau manau cyflenwi crac;
- uno grymoedd gwasgaru presennol yr heddlu i un grym i'r heddlu i gyfeirio pobl oddi wrth ardal ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol;
- gwneud yr offer anffurfiol a thu allan i'r llysoedd i ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn fwy adferol; a
- cyflwyno Ysgogydd Cymunedol sy'n rhoi'r hawl i ddioddefwyr a chymunedau i ofyn i asiantaethau ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol cyson.

Mae'r tablau isod yn cyflwyno ein cynigion i amnewid nifer o'r arfau a grymoedd presennol i ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

NEWIDIADAU I ORCHMYNION YN YMWNEUD Â PHOBL

System bresennol	Newidiadau arfaethedig	Manteision y system newydd
ASBO ar euogfarn	'Gorchymyn Ymddygiad Troseddol' – gellir gwneud cais amdano ynghyd ag euogfarn am unrhyw drosedd. Mae'n cynnwys gwaharddiadau ar yr unigolyn a chefnogaeth i atal ymddygiad yn y dyfodol sy'n debygol o arwain at ymddygiad gwrthgymdeithasol neu droseddau pellach.	'Gorchymyn Ymddygiad Troseddol' - Mae'r gorchymyn newydd yn cynnwys cefnogaeth i newid ymddygiad ac i helpu atal aildroseddu, yn hytrach na gwaharddiadau i atal yr unigolyn rhag gwneud rhywbeth (h.y. mynd i le penodol). Dim ond gwaharddiadau ar ymddygiad oedd yr ASBO yn gynnwys.
ASBO		
ASBO Dros Dro		
Gwaharddeb Ymddygiad Gwrthgymdeithasol		
Gorchymyn Cefnogaeth Unigol (ISO)		
Gorchymyn Ymyrraeth	'Gwaharddeb Atal Troseddu' – gorchymyn llys sifil. Mae hyn yn golygu mai dim ond profi'r ymddygiad 'ar gydbwysedd tebygolrwydd' (lefel is o brawf o drosedd) yn hytrach na 'thu hwnt i amheuaeth resymol' (lefel uwch o brawf o drosedd) sydd angen. Byddai gan y waharddeb hefyd waharddiadau a chefnogaeth ynghlwm. Pe byddai hyn yn cael ei dorri, byddai'n golygu dirwy neu ddalfa, er na fyddai'n drosedd droseddol.	Gwaharddeb Atal Troseddu' - Mae'n haws profi'r safon sifil o brawf a fydd yn ei gwneud yn gyflymach i gael gwaharddebau. Mae hyn yn golygu y gellir delio'n gyflymach ag ymddygiad trafferthus <ul style="list-style-type: none"> - Gall swyddogion yr heddlu a gweithwyr eraill roi tystiolaeth ar ran y gymuned, sy'n diogelu tystion bregus - Mae'r waharddeb newydd yn cynnwys cefnogaeth i newid ymddygiad yn hytrach na dim ond atal yr unigolyn rhag gwneud rhywbeth. Byddai hyn yn helpu lleihau aildroseddu - Nid oes unrhyw sancsiynau troseddol am dorri, sy'n atal pobl rhag cael eu troi'n droseddwr yn ddiangen

NEWIDIADAU I ORCHMYNION YN YMWNEUD Â LLEFYDD


System bresennol	Newidiadau arfaethedig	Manteision y system newydd
Gorchymyn Cau Mannau Cyflenwi Crac	<p>Gorchymyn Diogelu Cymunedol (Lefel 2) – gorchymyn parthed eiddo neu le sy'n gysylltiedig ag ymddygiad gwrthgymdeithasol sylweddol ac/neu gyson. Gallai hyn osod cyfyngiadau ar beth allech chi wneud yn y man hwnnw (h.y. gwahardd yfed alcohol). Gallai hefyd gau eiddo am hyd at 6 mis pe byddai'r Llys Ynadon yn cytuno i hyn.</p> <p>Gorchymyn Amddiffyn Cymunedol (Lefel 1) – hysbysiad a roddir i unigolyn i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol cyson sy'n effeithio ar ansawdd bywyd mewn ardal neu gymdogaeth, gyda chost ariannol am ddiffyg cydymffurfiad (neu sancsiynau eraill ble fo'n berthnasol, megis atafaelu offer sy'n creu sŵn)</p>	<p>- Gwneir llai o orchmynion a fydd yn ei gwneud yn haws i ymarferwyr wybod sut i'w defnyddio ac yn arbed costau ar hyfforddi staff</p> <p>- Dylai olygu y gellir delio'n fwy effeithiol a chyflym â phroblemau</p> <p>- Dylai'r gorchmynion newydd arbed arian gan y bydd yn lleihau'r nifer o geisiadau sydd eu hangen i ddelio â phroblem mewn man benodol</p>
Gorchymyn Cau Eiddo		
Gorchymyn Cau Puteindy		
Gorchymyn Man Cyhoeddus Dynodedig		
Gorchymyn Gatio		
Gorchymyn Rheoli Cŵn		
Gorchmynion Rheoli Dros Dro Arbennig		
Hysbysiad Clirio Sbwriel		
Hysbysiad Lleihau Sŵn		
Hysbysiad Clirio Graffiti/Difwyniad		

NEWIDIADAU I RYMOEDD YR HEDDLU

System bresennol	Newidiadau arfaethedig	Manteision y system newydd
<p>Cyfarwyddyd i Arael</p> <p>Gorchymyn Gwasgaru</p>	<p>Grym 'Cyfarwyddyd' yr heddlu - grym i gyfarwyddo unrhyw unigolyn sy'n achosi neu'n debygol o achosi trosedd neu anrhefn oddi wrth fan penodol, ac i atafaelu eitemau cysylltiedig</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Ni fydd y grym newydd yn gofyn i'r heddlu ddynodi parth yn 'barth gwasgaru' cyn gallu symud unigolion sy'n debygol o achosi trosedd neu anrhefn ymlaen. Bydd hyn yn lleihau biwrocratiaeth i'r heddlu ac yn golygu y gallant weithredu'n gyflymach i ddelio â phroblemau mewn ardal. - Bydd symleiddio grymoedd yn lleihau costau hyfforddi ac yn ei gwneud yn haws i'w defnyddio - Bydd y grym newydd yn ceisio taro'r cydbwysedd priodol rhwng gallu cymuned i fwynhau ei llefydd cyhoeddus, a hawliau sifil unigolion a grwpiau. Rydym eisiau eich barn ar sut i wneud hyn

Os hoffech gael rhagor o fanylion ar sut y bydd unrhyw un o'r grymoedd newydd uchod yn gweithio, gweler pennod 4 y brif ddogfen ymgynghori.

Mae'r diagram isod yn dangos ble rydym yn rhagweld y bydd yr offer newydd yn cael eu defnyddio i daclo ymddygiad gwrthgymdeithasol gyda'r mesurau anffurfiol fel modd o ddelio â phroblemau bychan a'r Gorchymyn Ymddygiad Troseddol yn offeryn ar gyfer y troseddwr mwyaf difrifol. Mae'r cwestiynau isod wedi eu ffocysu'n bennaf ar y meysydd mewn coch isod.



CAEL ASIANTAETHAU I WEITHREDU – YR YSGOGYDD CYMUNEDOL I WEITHREDU

Mae cryndipyn o ddrysych o ran beth mae poblyn golygu wrth ddeudymddygiad gwrthgymdeithasol, hyd yn oed gan y gweithwyr hynny y mae eu swydd i ddiogelu pobl. Gall yr ansicrwydd hwn arwain at ddioddefwyr yn canfod eu bod yn cael eu pasio o un asiantaeth i'r llall, neu'n adrodd yr un broblem dro ar ôl tro. Mae hyn wedi ei waethgu wrth i rai asiantaethau beidio sylweddoli effaith digwyddiad ar y dioddefydd neu'r gymuned.

Rydym eisiau i asiantaethau lleol ei gael yn iawn y tro cyntaf, ond os na fyddant, i roi mwy o rym i bobl i gael yr heddlu ac asiantaethau eraill i ymateb i'r materion sy'n bwysig yn eu hardal. Mae hyn yn arbennig o bwysig i'r rhai sydd wedi dioddef cael eu targedu gan ymddygiad gwrthgymdeithasol dros gyfnod o amser. Rydym yn cynnig cyflwyno gofyniad newydd ar yr heddlu ac awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill sy'n delio â diogelwch cymunedol (a elwir yn Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol), i weithredu i ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol cyson a wynebwr gan ddioddefwyr neu gymunedau. Byddai'r ddyletswydd yn cael ei hysgogi gan aelodau o'r cyhoedd yn gwneud cwyn sy'n bodloni meini prawf penodol.

Wedi ysgogi'r ddyletswydd, byddai angen i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol gymryd camau i ddatrys y broblem, ac ymateb i'r achwynwyr yn esbonio beth mae'n argymhell gwneud. Byddai'r ymateb hwnnw yn cael ei gopïo i'r Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau etholedig, yn dilyn eu sefydlu o 2012. Fe allai'r unigolyn hwn ddal yr awdurdodau hynny yn atebol os nad oedd ef neu hi'n meddwl fod yr ymateb arfaethedig yn ddigonol.

SUT FYDDAI'R YSGOGYDD CYMUNEDOL YN GWEITHIO

Gyda'r ysgogydd ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol, rydym yn argymhell y dylai'r maen prawf fod:

- Bod pum unigolyn, o bump cartref gwahanol yn yr un gymdogaeth, wedi achwyn am yr un mater, ac na weithredwyd; neu
- Bod yr ymddygiad dan sylw wedi ei adrodd i'r awdurdodau gan unigolyn o leiaf dair gwaith (er enghraifft, mewn cyfarfodydd plismona lleol), ac na weithredwyd; a
- Gallai Partneriaeth Diogelwch Cymuned wrthod y gŵyn os oeddent yn pennu ei bod yn faleisus (e.e. wedi targedu at unigolyn neu deulu penodol neu ar unrhyw sail wahaniaethol¹)."

Byddai cwynion oedd yn bodloni'r meini prawf hyn yn ysgogi dyletswydd ar y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol i weithredu i ddelio â'r broblem. Byddai'n rhaid iddynt ysgrifennu at yr achwynydd o fewn cyfnod penodol (e.e. 14 niwrnod), yn sefydlu beth oedd yn bwriadu gwneud gyda'r ymddygiad dan sylw. Byddai hyn yn cynnwys defnydd o unrhyw offer a grymoedd, yn ogystal ag unrhyw gymorth angenrheidiol gan yr achwynwyr neu'r gymuned ehangach (e.e. casglu tystiolaeth, neu adrodd ar ddigwyddiadau pellach).

Byddant yn copïo eu hymateb i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau. Os byddant yn barnu na fu'r ymateb yn ddigonol, yna fe allai Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau arfer ei rym ef neu hi i ddal y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn atebol neu i ddyrannu grant lleihau troseddu ac anrhefn i ddelio â'r broblem.

HYBLYGRWYDD LLEOL

Rydym yn argymhell y dylai Partneriaethau Diogelwch Cymunedol allu penderfynu sut maent yn hyrwyddo'r Ysgogydd Cymunedol, a'r modd maent yn ymateb i gwynion. Dim ond y grymoedd cyfreithiol fyddai'r Llywodraeth yn darparu a rhoi enghreifftiau o arfer da am ddulliau o alluogi pobl leol i wneud cwyn.

¹ Fel yr amlinellwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010

MECANWEITHIAU CWYNO PRESENNOL

Mae gan yr Heddlu, Awdurdodau Lleol a Landlordiaid Cymdeithasol fecanweithiau cwynion i'r rhai sy'n anfodlon â'u gwasanaethau, er enghraifft trwy Gomisiynydd Cwynion Annibynnol yr Heddlu ac Ombwdsmon yr Awdurdodau Lleol. Fodd bynnag, byddai'r ysgogydd cymunedol arfaethedig yn galluogi dioddefwyr a chymunedau i fynnu gweithredu buan i ddatrys problem leol ble na chafwyd gweithredu. Byddai'r ffocws ar atal ymddygiad yn y dyfodol, yn hytrach na gweithio allan beth oedd wedi mynd o'i le yn y gorffennol.

YMATEBION YMGYNGHORI:

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad ar-lein trwy gwblhau ffurflen ar-lein syml. Gallwch weld y ffurflen drwy ddefnyddio'r cyswllt canlynol: <http://consultations.homeoffice.gov.uk/survey.php>

Pe byddai'n well gennych ymateb ar bapur, mae cwestiynau'r ymgynghoriad cyhoeddus wedi eu hailadrodd isod a gallwch naill ai e-bostio eich ymatebion at asb-consultation@homeoffice.gsi.gov.uk neu eu postio at Anti-social Behaviour Unit, Home Office, 4th floor Fry building, 2 Marsham Street, Llundain SW1P 4DF. Mae'r ymgynghoriad yn agored tan Ddydd Mawrth 3 Mai 2011.

AMDANOCH CHI

FAINT OED YDYCH CHI? (TICIWCH UN)

- Dan 16
- 16-17
- 18-24
- 25-29
- 30-44
- 45-60
- Dros 60

BETH YW EICH RHYW (TICIWCH UN)

- Gwrywaidd
- Benywaidd

A....

- Oes gennych blentyn / blant dan 18?
- Oes gennych blentyn / blant dros 18?
- Nid oes gennych blant?

YM MHA RANBARTH YDYCH CHI? (TICIWCH UN)

- Gogledd Ddwyrain Lloegr
- Gogledd Orllewin Lloegr
- Swydd Efrog / Glannau Humber
- Dwyrain Canolbarth Lloegr
- Gorllewin Canolbarth Lloegr

- Cymru
- Dwyrain Anglia
- De Orllewin Lloegr
- De Ddwyrain Lloegr
- Llundain Fwyaf

YDYCH CHI’N:

- Ymateb ar ran sefydliad? Os felly, beth yw enw’ch sefydliad:
-

- Ymateb fel aelod o’r cyhoedd?

DIODDEFWR

A YDYCH CHI, NEU GYFAILL AGOS NEU AELOD O’CH TEULU, ERIOED WEDI DIODDEF O GANLYNIAD I YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL?

- Ydw, rydw i wedi dioddef ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Mae cyfaill agos neu aelod o’r teulu sydd wedi dioddef ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Nid y naill na’r llall
- Byddai’n well gennyf beidio dweud

YMHLE Y CLYWSOCH AM YR YMGYNGHORIAD?

- Clywed gan eraill
 - Erthygl yn y wasg genedlaethol
 - Erthygl yn y wasg leol
 - Teledu neu radio
 - Taflen
 - Cyfarfod wyneb i wyneb
 - Gwefan y Swyddfa Gartref
 - Gwefan Directgov
 - Arall (noder isod)
-

CWESTIYNAU CYFFREDINOL

1) YDYCH CHI’N MEDDWL Y BYDD Y NEWIDIADAU ARFAETHDIG YN (TICIWCH UN DEWIS):

- Fwy effeithiol o ran taclo ymddygiad gwrthgymdeithasol na’r ymagweddau presennol
- Ddim yn gwneud llawer o wahaniaeth i daclo ymddygiad gwrthgymdeithasol, ni fydd y broblem yn ddim gwahanol
- Yn llai effeithiol na’r ymagweddau presennol
- Dim syniad

Defnyddiwch y gofod isod i esbonio’ch ateb i Gwestiwn 1:

2) A YDYCH CHI’N CYTUNO NEU ANGHYTUNO FOD:

	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac anghytuno	Dim syniad
Bydd y cynigion newydd yn lleihau biwrocratiaeth gan ei gwneud yn gyflymach i’r heddlu neu asiantaethau lleol weithredu i ddiogelu dioddefwyr a chymunedau				
Bydd y cynigion newydd yn caniatáu ymagwedd hyblyg i daclo materion lleol penodol				
Bydd y cynigion newydd yn darparu mesurau sy’n fwy effeithiol o ran rhwystro troseddwr				
Bydd y cynigion newydd yn cynnwys mesurau sy’n fwy effeithiol o ran adsefydlu troseddwr cyson				
Bydd y cynigion newydd yn caniatáu i bobl yn y gymuned lunio’r modd y delir ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eu hardal				

Defnyddiwch y gofod isod i esbonio'ch ateb i Gwestiwn 2:

3) RHESTRWCH UNRHYW FANTEISION ERAILL A WELWCH YN DEILLIO'R CYNIGION NEWYDD:

4) RHESTRWCH UNRHYW ANFANTEISION A WELWCH YN DEILLIO'R CYNIGION NEWYDD:

5) MAE RHAI YN MEDDWL Y BYDD Y CYNIGION NEWYDD YN EFFEITHIO GRWPIAU PENODOL YN WAHANOL, NAILL AI’N BOSITIF NEU’N NEGYDDOL. PA RAI, OS O GWBL, O’R FFACTORAU CANLYNOL ALLAI ARWAIN I BOBL GAEL EU HEFFEITHIO YN WAHANOL (TICIWCH UN FESUL RHES)?

	Wedi effeithio’n fwy positif	Heb effeithio’n wahanol	Wedi effeithio’n fwy negyddol	Dim syniad
Oedran				
Anabledd				
Rhyw				
Hil				
Crefydd neu greddo				
Arall (nodwch)				

Defnyddiwch y gofod isod i ddarparu sylwadau atodol i esbonio’ch ateb i Gwestiwn 5:

CWESTIYNAU AR YR YSGOGYDD CYMUNEDOL

6) SUT YDYCH CHI’N MEDDWL Y GALLAI’R YSGOGYDD CYMUNEDOL EFFEITHIO AR SUT Y DELIR AG YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL YN EICH ARDAL? A ALLAI (TICIWCH UN):

- Wella’r modd y delir ag ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Wneud dim gwahaniaeth i’r modd y delir ag ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Wneud y sefyllfa o ran sut y delir ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn waeth
- Dim syniad

Defnyddiwch y gofod isod i ddarparu sylwadau atodol i esbonio'ch ateb i Gwestiwn 6:

I grynhoi, rydym yn cynnig y bydd y meini prawf ar gyfer defnyddio'r Ysgogydd Cymunedol fel a ganlyn:

- Bod pum unigolyn, o bump cartref gwahanol yn yr un gymdogaeth, wedi achwyn am yr un mater, ac na weithredwyd; neu
- Bod yr ymddygiad dan sylw eisoes wedi ei adrodd i'r awdurdodau gan unigolyn o leiaf dair gwaith (er enghraifft, mewn cyfarfodydd bîth cymdogaeth); a
- Gallai Partneriaeth Diogelwch Cymuned wrthod y gŵyn os oeddent yn pennu ei bod yn faleisus (e.e. wedi targedu at unigolyn neu deulu penodol neu ar unrhyw sail wahaniaethol²).

7A) A YDYCH CHI'N CYTUNO/ANGHYTUNO MAI DYMA'R MEINI PRAWF CYWIR AR GYFER YR YSGOGYDD CYMUNEDOL (TICIWCH UN):

- Cytuno
- Anghytuno
- Ddim yn cytuno nac anghytuno
- Dim syniad

7B) DEFNYDDIWCH Y GOFOD ISOD I ESBONIO'CH ATEB, GAN FEDDWL AM AGWEDDAU MEGIS:

- y broses a awgrymwyd ar gyfer sut y gallai'r ysgogydd weithio;
- y meini prawf i alw arno;
- os yw'r math a lefel o gynnwys y gymuned yn gywir;
- os ydych yn meddwl y bydd yn gwneud gwahaniaeth i ymddygiad gwrthgymdeithasol;

² Fel yr amlinellwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010

UNRHYW SYLWADAU ERAILL YR HOFFECH EU HYCHWANEGU?

8) MAE RHAI YN MEDDWL Y BYDD YR YSGOGYDD CYMUNEDOL YN EFFEITHIO GRWPIAU PENODOL YN WAHANOL, NAILL AI’N BOSITIF NEU’N NEGYDDOL. PA RAI, OS O GWBL, O’R FFACTORAU CANLYNOL ALLAI ARWAIN I BOBL GAEL EU HEFFEITHIO YN WAHANOL (TICIWCH UN FESUL RHES)?

	Wedi effeithio’n fwy positif	Heb effeithio’n wahanol	Wedi effeithio’n fwy negyddol	Dim syniad
Oedran				
Anabledd				
Rhyw				
Hil				
Crefydd neu greddo				
Arall (nodwch)				

Defnyddiwch y gofod isod i ddarparu sylwadau atodol i esbonio'ch ateb i Gwestiwn 8:

9) RHOWCH WYBOD I NI AM UNRHYW FESURAU Y CREDWCH DDYLID EU GWEITHREDU I ATAL EFFEITHIO'N NEGYDDOL AR Y GRWPIAU A DDYNODWYD UCHOD O GANLYNIAD I'R YSGOGYDD CYMUNEDOL:

10) YN OLAF, GAN FEDDWL YN GYFFREDINOL AM Y MATER O YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL, FAINT O DDIDDORDEB SYDD GENNYCH, OS O GWBL, MEWN CAEL GWYBOD SUT MAE YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL YN CAEL EI DACLO YN EICH ARDAL LEOL (TICIWCH UN):

- Llawer o diddordeb
- Rhywfaint o diddordeb
- Dim diddordeb
- Dim diddordeb o gwbl
- Dim syniad

Defnyddiwch y gofod isod i roi gwybod i ni sut yr hoffech gael gwybod am sut mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael ei daclo yn eich ardal leol:

PLEASE RETURN THIS COMPLETED FORM TO:

Home Office
Anti-social Behaviour Unit
4th Floor, Fry Building
2 Marsham Street
London
SW1P 4DF

ISBN: 978-1-84987-444-1

HO_01747_G